

## Cadeiriau

Diolch am y rhoddion a dderbyniwyd at y cadeiriau newydd a archebwyd i Capel Coch. Mae'r cadeiriau'n costio £80 yr un, ac yr ydym yn ddiolchgar am bob rhodd at y gost. Rydym yn nodi'r £80 yn unig am fod rhai wedi gofyn faint mae'r cadeiriau'n gostio.

### Meinciau Capel Coch

Cofiwch fod angen cyflwyno ceisiadau ar bapur i brynu un o feinciau'r festri erbyn **diwedd mis Mawrth**.

Nodwch eich enw a'ch cyfeiriad a sawl mainc yr hoffech eu prynu os gwelwch yn dda. Bydd rhaid cyfyngu pawb i un fainc os bydd galw mawr amdanynt. Y prys fydd £30 y fainc.

Bydd angen i bawb a fydd yn prynu mainc drefnu i'w symud o'r festri eu hunain.

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Nos Lun, Mawrth 24:** Y Gymdeithas Undebol yn Nhy Elidir am 7.00 o'r gloch yng nghwmni'r Gweinidog.

**Nos Fercher, Mawrth 26:** Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Mawrth 30:** Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch a bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch dan arweiniad Mr Charles Jones, Llanrug.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Nos Fercher, Mawrth 26:** Dosbarth Beiblaidd yr Ofalaeth yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Mawrth 28:** CIC yn y festri am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Mawrth 30:** Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr Dylan Rhys, Caernarfon. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Cynhelir oedfa am 5.00 o'r gloch dan ofal y Gweinidog.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Mawrth 30:** Ni fydd oedfa.

### CYHOEDDIAD AR GYFER YR WYTHNOS WEDYN

**Nos Lun, Mawrth 31:** Pwyllgor yr Ofalaeth yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch.

## Y mis nesaf - Deiniolen

### Mawrth 23

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Mr Arwel Williams

### Mawrth 30

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Mr Charles Jones

### Ebrill 6

9.30 a.m. - Y Gweinidog  
10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

## Y mis nesaf - Llanberis

### Mawrth 23


10.30 a.m. - Oedfa Deulu  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

### Mawrth 30

10.00 a.m. - Mr Dylan Rhys  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa

### Ebrill 6

10.00 a.m. - Dr Huw Tegid Roberts  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris  
Rhif 584 – Dydd Sul, 23 Mawrth, 2014

## Y peth byw

Roeddwn wedi anghofio amdano nes i mi bori yn y llyfr unwaith eto'r wythnos ddiwethaf. Nid anghofio'r llyfr na'i awdur, na'r hyn yr oedd yr awdur yn sôn amdano.

Y llyfr oedd 'Dyddiau Gras', a'r awdur oedd y diweddar Barchg Emyr Roberts, a fagwyd yng Nghwm-y-glo. Detholiad o waith Emyr Roberts, a olygwyd gan ei fab John Emyr, a geir yn y gyfrol. Mewn dyfyniad o bregeth a draddododd ar Hydref 3, 1976 mae Mr Roberts, a oedd yn weinidog yn Y Rhyl ar y pryd yn sôn am y ffrydiau ysbrydol a oedd yn llifo yng Nghymru. 'Mi ddeuthum ar eu traws nhw,' meddai, 'yr haf yma. Mi fûm mewn oedfa yn fy hen ardal: cwmni wedi dod i adnabod Iesu Grist ac yn cyfarfod yn wythnosol i weddio ac i ddarllen y Beibl. A minnau'n cael fy ngwadd atyn nhw i ryw oedfa. Roedd y capel, yng nghanol tywydd poeth, yn dri chwarter llawn, a hogyn pedair ar bym-theg oed yn arwain. Roedd y peth byw yno. Y bywyd. Roedd yr afon yno, y dyfroedd bywiol.'

Wedi anghofio oeddwn i bod cyfeiriad at y peth yn y llyfr arbennig hwnnw. Mae'r hanes yn fyw iawn, a minnau trwy drugaredd a gras Duw yn rhan o'r stori. Roedd hen lyfr nodiadau sydd yn nrôr fy nesi yn help i gofio manylion y cyfarfodydd a gynhaliwyd yn yr ardal hon gan gwmi o Gristnogion ifanc rhwng Awst 1975 a Mawrth 1979. Ar y cyntaf, fe'u cynhaliwyd ar yn ail yn Llanberis a Llanrug, ac o ddiwedd Medi 1976 ymlaen yn Llanberis.

Daeth Emyr Roberts atom ddwywaith yr haf hwnnw, ym mis Gorffennaf i ddechrau ac yna ym mis Medi. Yn Llanrug y cynhaliwyd y ddau gyfarfod. Pregethodd o Rhufeiniaid 13 y tro cyntaf ac o 1 Ioan 5 yr eildro. Daeth atom i Lanberis o leiaf deirgwaith wedi hynny, ac yr oeddem wrth ein bodd yn ei gwmi a than ei weinidogaeth. Bydd rhai ohonoch yn cofio'r criw o bobl ifanc a ddeuai o sawl cyfeiriad i'r cyfarfodydd bob wythnos. Roedd y mwyafrif yn eu hugeniau cynnar a thrwy ras Duw yn tystio i'w cred yn yr Arglwydd Iesu Grist. Does ryfedd fod Emyr Roberts yn dweud, 'Mae 'na ffrwd yn llifo yn ein plith ninnau'.

Roedd yn amser da, ac yn gyfnod o fendith fawr. Roedd yn fraint i mi gael bod yng nghanol y gweithgarwch a'r cyffro. Ac mae'n fraint i mi gael bod yng nghanol yr hyn y mae Duw yn ei wneud ymhlith pobl ifanc ein hardal heddiw hefyd, yn benodol trwy waith Cynllun Efe. Mae'r *gweithgarwch* yn wahanol ond yr un yw'r *gwaith*, sef cyflwyno'r newyddion da am Iesu Grist i genhedlaeth newydd a rhoi cyfle i bobl ifanc addoli Duw. Ac un o freintiau eglwysy'r fro hon yw cefnogi gwaith Cynllun Efe. Mae cyfle i wneud hynny trwy'r apêl flynyddol UN O FIL (neu UN O GANT). Daeth yn bryd gwneud yr apêl am eleni. Ceir rhagor o fanylion amdani y tu fewn i'r rhifyn hwn. Cefnogwn y gwaith, a gweddio hefyd y bydd rhywrai'n dweud ryw ddiwrnod am weithgarwch Efe, 'Roedd y peth byw yno'.

Gofalaeth Unedig  
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul unwaith eto. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad.

Cynhelir yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr Arwel Williams, Caernarfon. Diolch iddo am ei gymorth a chroeso cynnes iddo unwaith eto.

Cynhelir Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch dan arweiniad Susan Williams a minnau, a byddaf yn arwain yr oedfa yno am 5.00 o'r gloch hefyd.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

## Cofion

## Pwyllgor yr Ofalaeth

Cynhaliwyd Pwyllgor yr Ofalaeth yn Capel Coch nos Lun ddiwethaf. Diolch i bawb a ddaeth yno.

Cynhelir cyfarfod arall o'r Pwyllgor wythnos i nos yfory, nos Lun, Mawrth 31, yn Capel Coch eto, am 7.00 o'r gloch.

Mae'r blaenoriaid a'r diaconiaid a holl swyddogion yr eglwysi yn aelodau o'r pwyllgor hwn. Gobeithio bydd modd i bob eglwys gael ei chynrychioli yn y cyfarfod y noson honno.

## Cymdeithas Undebol Deiniolen

Cynhelir cyfarfod nesaf Cymdeithas Undebol Deiniolen yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch nos yfory, nos Lun, Mawrth 24 yng ngofal y Gweinidog. Testun y sgwrs (os na fyddaf wedi ail-feddwl erbyn hynny!) fydd 'Hanner munud'.

Hwn fydd y cyfarfod olaf cyn y Swper Blynyddol ddiwedd mis Ebrill.

## CIC

Bydd y cyfarfod nesaf yn y festri nos Wener nesaf yma, Mawrth 28.

## Pwyllgor Cymanfa

Ym Mhwyllgor Cymanfa Annibynwyr y cylch a gynhaliwyd yn Capel Coch nos Fawrth ddiwethaf, penderfynwyd cynnal y Gymanfa eleni yn Ysgol Gymuned Penisarwaun, am 2.00 o'r gloch bnawn Sul, Mai 11.

Aelodau'r Ysgol Sul yn Neiniolen fydd yn gyfrifol am drefnu'r gwasanaeth dechreuol a threfniadau'r te.

Ceir rhagor o fanylion yn nes ymlaen.

## Dosbarth Beiblaidd

Bydd y Dosbarth Beiblaidd yn cyfarfod yn Yr Haciau, Penisarwaun am 7.00 o'r gloch nos Fercher yr wythnos hon, Mawrth 26.

## Un o Gant ac Un o Fil

Fe gofiwch i ni wneud yr Apêl hon am gymorth i Gynllun Efe yr adeg yma'r llynedd. Mae blwyddyn wedi mynd heibio ac felly dyma gyflwyno'r apel am eleni eto.

I ddechrau, diolch i bawb a gyfrannodd y llynedd. Mae rhai ohonoch wedi trefnu i wneud eich cyfraniadau trwy'r banc yn fisol neu'n flynyddol, ac yn amlwg yr ydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaol.

Byddwn yn ddiolchgar os gall y rhai ohonoch a gefnogodd Apêl Un o Fil neu Un o Gant y llynedd wneud yr un peth eto. I'ch atgoffa, felly, yr ydym yn gofyn i bobl gyfrannu £20 y flwyddyn fel rhan o gynllun 'UNO FIL' neu £100 y flwyddyn at gynllun 'UN O GANT'.

Os cawn ni gefnogaeth dda yn eglwysi'r ardal i'r apel hon bydd modd i ni barhau i gynnal swydd ein gweithiwr ieuencid ymhellach na'r flwyddyn bresennol a ddaw i ben ddiwedd Medi eleni.

Mae ffurflenni i'w cael yn y capeli, a gallwch roi eich cyfraniad i'r Gweinidog os gwelwch yn dda. Bydd yr Apêl hon yn cael ei gwneud dros y mis nesaf.

Gobeithio'n fawr y cawn eich cefnogaeth eto. Roedd yr ymateb y llynedd yn hael ac yn galondid mawr i ni sy'n arwain gwaith Cynllun Efe. Am ragor o fanylion cysylltwch â'r Gweinidog.

## Pasg Efe

Cynhelir Pasg Efe eleni eto, ac edrychwn ymlaen i gyflwyno neges y Pasg i blant yr ardal (Blwyddyn 3 hyd Flwyddyn 6). Yn Ysgol Gynradd Llanrug y cynhelir y diwrnod, ddydd Llun, Ebrill 14, gan ddechrau am 10.00 o'r gloch y bore a gorffen ar ôl cinio am 1.30 o'r gloch. Caiff y plant wahoddiad trwy'r ysgolion cynradd cyn hynny.

## Cwrs Coleg y Bala

Bydd cyfle i blant ysgolion Sul Llanberis a Deiniolen fynd i Goleg y Bala ar ein cwrs penwythnos blynyddol o nos Wener, Mai 16 hyd ddydd Sul, Mai 18. Bydd hwn ar gyfer plant 8–12 oed (Blwyddyn 3–6).

## Casgliad Genhadaeth

Gwneir y casgliad blynyddol yn Capel Coch at Gronfa Genhadol Chwiorydd, Eglwys Bresbyteraidd Cymru y mis hwn. Byddwn yn ddiolchgar am bob rhodd at y casgliad hwn fel arfer, a gellir rhoi eich cyfraniad i Miss Dilys Mai Roberts neu i'r casglyddion a fydd yn dod o amgylch fel arfer.

## Glanhau'r Festri

Diolch yn fawr i Mrs Eryl Jones a Mrs Eurwen Nesbitt am ymateb i'r cais a gafwyd yn Gronyn yn ddiweddar am gymorth i lanhau festri Capel Coch. Byddant yn cymryd eu tro gyda'r rhai sydd wrthi ar hyn o bryd, a diolchwn wrth gwrs i bawb sy'n rhoi eu hamser i wneud y gwaith. Os oes rhagor a allai helpu, rhowch wybod i Miss Dilys Mai Roberts os gwelwch yn dda.

## Cymdeithas Undebol Llanberis

Y Swper Blynyddol fydd ein cyfarfod nesaf, yng Ngwesty'r Dolbadarn, nos Fawrth, Ebrill 8.